**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**
**22 Medi 2025 am 11:30, drwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Alison Davies | (AD) | Arweinydd Adnoddau a Thalent |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr staff |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| Dechreuodd y cyfarfod am 11:30 | | |

WEDI'I GADARNHAU

| **PODC 1/2025.07.16** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
|---|---|

Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn electronig.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ar 14 Hydref 2025.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.

| **PODC 2/2025.07.16** | **Datganiadau o Fuddiant** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| **PODC 3/ 2025.07.16** | **Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** |
|---|---|

Cyflwynodd RA y Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Drafft diwygiedig. Pwysleisiodd ei rôl liniaru sylweddol mewn perthynas â Risg Gorfforaethol 1541 sydd yn ymwneud â'r risg o niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr o ganlyniad i ddiffyg gwiriadau DBS parhaus ar ôl cyflogaeth gychwynnol. Nod y polisi yw sefydlu gwiriadau DBS systematig a pharhaus drwy gydol cyflogaeth, gan gyd-fynd ag arferion gorau a chyfrifoldebau diogelu'r sefydliad. Tynnodd RA sylw at y ffaith mai Iechyd Cyhoeddus Cymru fyddai'r unig sefydliad sy'n rhan o GIG Cymru i gael proses o'r math hwn ar waith.

Nododd RA fod y polisi wedi cael ei adolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth, a wnaeth ofyn am eglurhad ar y dull dan arweiniad gweithwyr. Eglurodd RA nad oedd yn bosibl i'r broses gael ei harwain gan y cyflogwr, ac y byddai'n ofynnol i staff gychwyn eu gwiriadau DBS a thalu amdanynt. Nodwyd bod proses wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth ariannol ac emosiynol, yn cynnwys proses ar gyfer ad-dalu na fyddai'n defnyddio'r system dreuliau.

Tynnodd CB sylw at bwysigrwydd cefnogi cydweithwyr a allai gael y broses yn ofidus, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn rhan o'r system gyfiawnder troseddol yn y gorffennol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- O ystyried hyd y ddogfen bolisi, awgrymodd y Pwyllgor y dylid datblygu canllawiau neu ffeithluniau i gyd-fynd â'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i staff. Cadarnhaodd AD fod canllawiau i staff a rheolwyr, yn cynnwys siart llif, yn cael eu datblygu. Awgrymwyd hefyd y dylid recordio podlediad ar y pwnc hwn i esbonio sail resymegol a goblygiadau ymarferol y polisi, yn enwedig i staff sy'n poeni am euogfarnau hanesyddol.
- Nododd AD, ar ôl i'r polisi hwn gael ei gymeradwyo, y byddai'r Polisi Diogelu yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

WEDI'I GADARNHAU

- Holwyd sut y byddai staff yn cael eu cefnogi mewn sefyllfaoedd lle mae gwiriadau DBS ar staff presennol yn datgelu gwybodaeth newydd. Esboniodd AD y byddai rheolwyr yn cael canllawiau ar sut i ymdrin â'r sgyrsiau hyn, ac y byddai proses asesu risg dau gam strwythuredig yn cael ei rhoi ar waith. Byddai hyn yn cynnwys asesiad cychwynnol yn seiliedig ar y rôl a'r wybodaeth a ddatganwyd, wedi'i ddilyn gan adolygiad manwl ar ôl cael y dystysgrif DBS. Nodwyd hefyd y byddai staff yn cael eu cynghori i wirio gyda'r elusen Unlock i weld a yw hen euogfarnau yn gymwys i gael eu tynnu oddi ar dystysgrifau.
- Awgrymwyd y dylid archwilio a ellid cynnwys gwiriadau cydymffurfio â gwiriadau DBS yn y broses arfarnu staff, a fyddai'n helpu i sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r canllawiau sydd eu hangen arnynt. Cytunodd AD y byddai hyn yn cyd-fynd yn dda â gwiriadau cydymffurfio eraill ac y byddai'n archwilio'r opsiwn hwn.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch dirprwyo cyfrifoldeb dros sicrhau bod tanysgrifiadau DBS yn gyfredol. Eglurodd AD y byddai staff a rheolwyr yn cael nodyn atgoffa cyn i danysgrifiadau ddod i ben, ac mai rheolwyr fyddai'n gyfrifol am gydymffurfiaeth y tîm. Fodd bynnag, byddai'r staff hynny'n gyfrifol am eu tanysgrifiadau eu hunain, yn debyg i'r broses ar gyfer cofrestru proffesiynol.

Diolchodd y Pwyllgor i AD a'i chydweithwyr am yr holl waith a wnaed ar y polisi hwn.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y polisi diwygiedig a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chytunodd i **gymeradwyo'r** polisi wedi'i ddiweddaru.

| **PODC 12/2025.07.16** | **Camau dod â'r cyfarfod i ben** |
|---|---|

Diolchodd TR i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 14 Hydref 2025

Daeth y cyfarfod i ben am 11:52

WEDI'I GADARNHAU